# Gerddi Agored Dolwyddelan

**Dyddiad i'r dyddiadur: Dydd Sadwrn Mehefin 7fed**

Byddwn ni'n trefnu'r Digwyddiad Gerddi Agored yn y pentref unwaith eto eleni fel ein digwyddiad codi arian blynyddol ar gyfer Eglwys Sant Gwyddelan. Mae Gerddi Agored yn ddigwyddiad lle mae pobl y pentref yn cynnig agor eu gardd, neu ran o'u gardd, am y diwrnod, i ymwelwyr gael golwg o'u cwmpas. Mae'n gyfle i gael ysbrydoliaeth o wahanol fathau o erddi a gwahanol ffyrdd o arddio, cael rhai syniadau, sgwrsio ag eraill, yn aml iawn bydd lluniaeth ar gael a'r dewis i brynu rhai planhigion sydd wedi'u tyfu'n lleol.

Rydym ni'n chwilio am bobl sy'n barod i ymuno eleni ac agor eu gardd am y diwrnod. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn ystod eang o arddulliau garddio - gerddi ar gyfer cynnyrch (tyfu ffrwythau a llysiau), ar gyfer bywyd gwyllt (dolydd, ardaloedd gwyllt), gerddi bach neu fach iawn - ychydig o botiau ar batio neu fath penodol o ardd/arddull, yn ogystal â gerddi ar gamau gwahanol o ddatblygiad (does yr un ardd erioed wedi 'gorffen'). Felly, peidiwch â meddwl nad ydy eich gardd chi'n addas, mae croeso mawr i bawb.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y digwyddiad, cysylltwch gyda Sue Layland ar sue.layland@gmail.com am fwy o wybodaeth. Bydd gwybodaeth am brynu tocynnau ar gael yn nes at yr amser ar bosteri o gwmpas y pentref ac ar dudalen Facebook yr eglwys.







Sue Layland

## LLYFRAU AIL-LAW AR WERTH

Mae stoc ychwanegol wedi ymddangos ar y silffoedd o lyfrau ail-law yn y Pafiliwn.

Paratowch ar gyfer y gwanwyn gyda llyfrau yn ymwneud a llysiau, blodau, a phob math o arddio.

Ar gael i'w prynu yn y Pafiliwn pan welwch y goleuadau arnodd.

Blwch Gonestrwydd.

